

Y Troad Terfynol?

P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru

Rhagfyr 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDeisebau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Deisebau@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddDeisebau](https://twitter.com/SeneddDeisebau)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Troad Terfynol?

P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru

Rhagfyr 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDeisebau

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Jack Sargeant AS
Llafur Cymru



Rhys ab Owen AS *
Aelod Annibynnol Plaid Cymru



Luke Fletcher AS
Plaid Cymru



Joel James AS
Ceidwadwyr Cymreig



Buffy Williams AS
Llafur Cymru

* Ymunodd Rhys ab Owen AS â'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022.

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
1. Y Ddeiseb.....	6
Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru	6
Argymhellion	7
2. Rasio milgwn yng Nghymru.....	8
Rheoleiddio rasio milgwn ar hyn o bryd.....	8
Y sefyllfa wleidyddol yng Nghymru	9
Newidiadau yn y Gymdeithas Ddinesig.....	9
Gweddill y byd	10
3. Y ddeiseb a gwaith y Pwyllgor	11
4. Safbwynt y Pwyllgor	12
Goblygiadau	13
Atodiad A: Tystiolaeth	14

Rhagair y Cadeirydd

Mae gan Gymru hanes cryf yn ddiweddar o ran lles anifeiliaid, ac mae Aelodau Pwyllgor Deisebau'r Senedd yn hen gyfarwydd â deisebau sy'n ceisio gwneud bywyd yn fwy diogel i anifeiliaid.

Fel Pwyllgor ein prif flaenoriaeth fu lles milgwn a dyna oedd ein pwynt cyfeirio cyntaf bob amser wrth glywed a thrafod tystiolaeth.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth gan elusennau anifeiliaid a'r diwydiant, gan gynnwys y camau sydd eisoes wedi'u cymryd ac sydd ar y gweill i wella lles anifeiliaid, ein casgliad mwyafrifol yw cefnogi'r galwadau cynyddol am waharddiad ar rasio milgwn yng Nghymru.

Er bod gan un Aelod bryderon ynghylch cefnogi gwaharddiad, rydym i gyd yn gytûn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried pob opsiwn wrth ymgynghori ar drefniadau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod lles milgwn yn hollbwysig – ar bob cam o'u bywydau.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad ac yn arbennig i'r deisebwyr a weithiodd i gael cymaint o lofnodion. Mae'r broses ddeisebu yn eiddo i bobl Cymru ac rwy'n annog unrhyw un sydd am ddilyn camau'r deisebydd hwn a dechrau deiseb i wneud hynny.

A handwritten signature in black ink that reads "JACK SARGEANT." The signature is written in a cursive style with a long horizontal line extending from the end of the name.

Jack Sargeant

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

1. Y Ddeiseb

Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru

Yng Nghymru, mae gennym un trac rasio milgwn annibynnol sy'n cynnal rasys unwaith yr wythnos. Ers mis Ebrill 2018, mae Hope Rescue a'i bartneriaid achub wedi derbyn bron 200 o filgwn dros ben o'r trac hwn, ac roedd 40 o'r rhain wedi dioddef anafiadau. Mae cynlluniau ar waith i'r trac ymuno â Bwrdd Milgwn Prydain Fawr, a fyddai'n arwain at gynnal rasys bedair gwaith yr wythnos a chynnydd sylweddol yn nifer y cŵn dros ben a'r anafiadau. Mae rasio milgwn yn greulon yn ei hanfod, a phrin yw'r warchodaeth gyfreithiol sydd gan filgwn. Mae eisoes wedi'i wahardd ym 41 o daleithiau UDA.

Mae grwpiau ymgyrchu wedi casglu data a thystiolaeth yn ymwneud â llesiant gwael yn y maes rasio milgwn yn y DU:

- Cynghrair yn erbyn Rasio Milgwn
www.aagr.org.uk/category/why-is-greyhound-racing-cruel/
- Cynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon www.league.org.uk/greyhound-racing

Bu erthyglau yn y wasg ac ymchwiliadau cudd hefyd i rasio milgwn:

- RTE Investigates: Greyhounds Running For Their Lives
www.youtube.com/watch?v=ZYTb2qBjIMM
- Panorama Investigates: Doping and rigging bets
www.youtube.com/watch?v=I0p0bHskIAk
- www.theguardian.com/sport/2021/jun/26/activists-renew-calls-to-end-greyhound-racing-as-400-die-despite-lockdowns
- www.mirror.co.uk/news/uk-news/greyhounds-being-shipped-pakistan-illegal-23765480
- www.thesun.co.uk/news/13086085/british-greyhounds-racing-dogs-mass-graves-bolt/

Bydd deiseb ddiweddar yn cael ei thrafod yn Senedd y DU ar ôl sicrhau 104,882 o lofnodion:

- <https://petition.parliament.uk/petitions/554073>

Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i ystyried trwyddedu rasio milgwn fel rhan o'i Chynllun Lles Anifeiliaid. Byddem yn annog blaenoriaethu'r gwaith hwnnw. 13
- Argymhelliad 2.** Mae mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor yn credu y dylai camau gweithredu Llywodraeth Cymru gynnwys gwaharddiad graddol ar rasio milgwn yng Nghymru..... 13
- Argymhelliad 3.** Gall gyrfa rasio milgi fod yn rhan fer o'i fywyd. Ni ddylai camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella lles anifeiliaid gael eu cyfyngu i waharddiad ar rasio – fel strategaeth y diwydiant ei hun, dylai ystyried oes gyfan cŵn, a'r amodau y cânt eu cadw ynddynt cyn ac ar ôl eu gyrfaedd rasio. Byddai hyn yn cynnwys cyflwr cŵn yn teithio drwy Gymru ar eu ffordd i rasys..... 13
- Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw newidiadau yn destun ymgynghoriad eang, a bod cyngor ar gael i'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant ar sut i gydymffurfio ag unrhyw reolau neu reoliadau newydd..... 13
- Argymhelliad 5.** Wrth ystyried gwaharddiad ar rasio milgwn, dylai Llywodraeth Cymru hefyd edrych ar chwaraeon eraill lle mae anifeiliaid yn cystadlu..... 13

2. Rasio milgwn yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn nodi'r sefyllfa yng Nghymru mewn perthynas â rasio milgwn.

1. Dim ond un trac rasio milgwn sy'n gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd - **y Valley Greyhound Stadium** yn Ystrad Mynach. Cynhelir rasys yno unwaith yr wythnos.
2. Mae'r Valley Stadium yn un o dri thrac rasio annibynnol yn y DU, sydd wedi'u trwyddedu gan yr awdurdod lleol. Mae 19 o draciau rasio pellach wedi'u trwyddedu gan Fwrdd Milgwn Prydain Fawr. Mae rheolau ychwanegol ar gyfer traciau Bwrdd Milgwn Prydain Fawr, sydd wedi'u llunio i ddiogelu lles yr anifeiliaid (megis presenoldeb milfeddygon). Nid oes gan y Bwrdd ddim traciau yng Nghymru ar hyn o bryd.
3. Fodd bynnag, prynwyd y trac gan Dave Barclay ym mis Tachwedd 2021, a chyhoeddodd ei fwriad i ddatblygu'r trac a cheisio trwydded Bwrdd Milgwn Prydain Fawr ym mis Ionawr 2024. Byddai sicrhau trwydded yn arwain at rasio amlach, bedair gwaith yr wythnos.
4. Yn y cyfamser, mae'r trac yn parhau i weithredu'n annibynnol. Ym mis Hydref 2022 cyflwynodd y rheolwyr gais cynllunio i ddatblygu cynelau rasio newydd ar y safle.
5. Ar lefel ehangach, mae'r diwydiant wedi llunio strategaeth ar gyfer lles anifeiliaid yn y gamp - A Good Life for Every Greyhound¹ – a dywedodd cynrychiolwyr wrth y Pwyllgor eu bod yn gweithio i fynd i'r afael â phryderon.
6. Clywodd y Pwyllgor gan berchennog milgi a oedd yn rhannu peth o'i angerdd am y gamp, a'r mwynhad y mae'n ei gael o rasio ei gi ei hun. Nododd fod rasio milgwn yn fwy fforddiadwy a hygyrch na rasio ceffylau, er enghraifft.

Rheoleiddio rasio milgwn ar hyn o bryd

7. Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006, (Deddf 2006) yn cynnwys darpariaethau cyffredinol o ran lles anifeiliaid ac yn caniatáu cymryd camau pan fo tystiolaeth ar gael yn ymwneud â chreulondeb i anifail neu fethiant i ddarparu ar gyfer anghenion lles anifail. Gallai'r

¹ A Good Life for Every Greyhound – gweledigaeth strategol newydd Bwrdd Milgwn Prydain Fawr i hyrwyddo a diogelu lles ymhellach ar draws pob cyfnod o fywyd milgi. <https://gbgb-prod-assets.s3.eu-west-1.amazonaws.com/wp-content/uploads/2022/05/11153000/GBGB-A-Good-Life-for-Every-Greyhound-Welfare-Strategy.pdf>

darpariaethau hyn fod yn gymwys pan fo milgwn ar draciau neu'n cael eu cadw mewn cytiau hyfforddwr.

8. Mae adran 12 o Ddeddf 2006 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i hyrwyddo lles anifeiliaid. Mae adran 13 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno cynlluniau trwyddedu i ddiogelu lles anifeiliaid.

9. Yn Lloegr, gwnaed rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 13 o Ddeddf 2006; *The Welfare of Racing Greyhounds Regulations 2010*. Nod y rheoliadau hyn yw diogelu milgwn sy'n rasio yn Lloegr a darparu bod yn rhaid i bob gweithredwr traciau rasio milgwn gael trwydded. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw amddiffyniadau cyfreithiol penodol ar gyfer rasio milgwn yng Nghymru.

Y sefyllfa wleidyddol yng Nghymru

10. Ar 4 Tachwedd 2021, cyhoeddodd Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd **Gynllun Lles Anifeiliaid i Gymru 2021-26**. Roedd hyn yn cynnwys cynllun i gyflwyno gofyniad trwyddedu mewn perthynas ag arddangosfeydd anifeiliaid a sefydliadau anifeiliaid – "o bosibl gan gynnwys arddangosfeydd anifeiliaid teithiol, rasio milgwn a sefydliadau lles anifeiliaid".

11. Mewn ymateb i gwestiynau yn Siambr y Senedd ar 26 Hydref 2022, dywedodd Ms Griffiths:

*"Nid wyf wedi celu fy awydd i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â lles milgwn rasio yng Nghymru. Mae ein cynllun lles anifeiliaid yn nodi sut y byddwn yn ystyried cyflwyno mesurau pellach. Rwy'n edrych ymlaen at ganlyniad y ddeiseb ddiweddar, sydd dan ystyriaeth y Pwyllgor Deisebau ar hyn o bryd."*²

Newidiadau yn y Gymdeithas Ddinesig

12. Newidiodd nifer o sefydliadau lles anifeiliaid eu polisi yn 2022 – gan symud o weithio gyda stadia/diwydiant rasio i leihau niwed, i sefyllfa fwy uniongyrchol gwrthbleidiol.

² Cofnod y Trafodion, Senedd Cymru, 26 Hydref 2022, paragraff 111

Y Troad Terfynol?

P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru

13. Ym mis Medi 2022 bu i nifer o sefydliadau - Dogs Trust, RSPCA, Blue Cross, Hope Rescue ac Achub Milgwn Cymru lansio – *Cut the Chase*³ – ymgyrch newydd i wahardd rasio milgwn yn y DU. Maent yn gobeithio y bydd Cymru yn arwain y blaen i wledydd eraill y DU ei dilyn.

14. Maent o'r farn nad oes lle i rasio milgwn mewn cymdeithas fodern, a bod rasio yn ei hanfod yn beryglus.

15. Er y gallai cyflwyno trefn drwyddedu yng Nghymru gael ei ddefnyddio i wella materion o ran lles, mae'r elusennau'n nodi bod miloedd o gŵn yn cael eu hanafu a'u lladd ar draciau trwyddedig.

"On British licensed tracks, over 2,000 greyhounds died and nearly 18,000 injuries were recorded between 2018 and 2021"⁴

Gweddill y byd

16. Mae Cymru yn un o ddim ond 10 gwlad yn y byd lle mae rasio milgwn masnachol yn dal i ddigwydd yn gyfreithlon - ochr yn ochr â Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon, Awstralia, Seland Newydd, Mecsico, Fietnam ac UDA.

17. Yn dilyn pleidlais yn 2018, cyflwynodd talaith Florida yn yr UD waharddiad ar rasio milgwn o ddechrau 2021. Ar adeg y bleidlais, roedd Florida yn gartref i 11 o 17 o draciau rasio cŵn UDA.

18. Wrth gasglu tystiolaeth clywsom am y rhan y mae gamblo yn ei chwarae wrth ariannu'r gamp, lle caiff rasys eu dangos ar y teledu i ddarparu cynnwys chwaraeon byw y gall pobl fetio arno.

³ www.bluecross.org.uk/campaign/CutTheChase

⁴ www.bluecross.org.uk/campaign/CutTheChase

3. Y ddeiseb a gwaith y Pwyllgor

19. Cyflwynwyd y ddeiseb gan Hope Rescue ac fe'i hagogwyd ym mis Medi 2021. Casglodd 35,101 o lofnodion o bob cwr o'r byd. Roedd 18,707 o'r rhain o Gymru. Caeodd ar 1 Mawrth 2022.

20. Penderfynodd y Pwyllgor gymryd tystiolaeth a llunio adroddiad byr. Bydd hyn yn llywio dadl ar y mater yn y dyfodol.

21. Cynhaliwyd dwy sesiwn dystiolaeth ar 23 Mai 2021 (Panel 1 – elusennau lles milgwn), a 13 Mehefin 2021 (Panel 2 – cyfranogwyr rasio milgwn). Mae rhestr o gyfranogwyr, a gohebiaeth ychwanegol yn ymwneud â'r ddeiseb hon, i'w gweld yn Atodiad A: Tystiolaeth.

22. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth, ac a fu o gymorth i lywio ein trafodaeth a'n casgliadau.

4. Safbwynt y Pwyllgor

Mae'r bennod hon yn nodi casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru.

23. Mae traddodiad hir o rasio milgwn yng Nghymru. Er mai dim ond un trac annibynnol sydd yng Nghymru, mae'r gymuned rasio yn rhan o'r dirwedd Brydeinig ehangach, ac felly bydd cŵn sy'n cael eu magu a'u hyfforddi yng Nghymru yn cystadlu dros y ffin, ac yn yr un modd bydd cyn-gŵn rasio sy'n ymddeol i fyw eu dyddiau fel anifeiliaid anwes yma yng Nghymru hefyd. Yn yr un modd rydym yn ymwybodol bod milgwn yn aml yn teithio o lwerddon drwy Gymru i gael mynediad i draciau yn Lloegr.

24. Drwy gydol ein hymchwiliad, mae ein pwyslais wedi bod ar les cŵn. Dylai fod gan Gymru gyfundrefn sy'n fwy cadarn na rhannau eraill o'r DU, pan ddaw i les anifeiliaid. Fel Pwyllgor rydym wedi ymrwymo i sicrhau y byddai unrhyw argymhellion a wneir gennym yn gwella ansawdd bywyd cŵn ar bob cam o'u bywydau: fel cŵn bach, fel raswyr, ac ar ôl ymddeol. Byddem hefyd am sicrhau bod cŵn sy'n cael eu cludo drwy Gymru hefyd yn cael eu hamddiffyn.

25. Wrth edrych yn benodol ar y Valley Track, mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y perchnogion yn awgrymu nad yw'r trac yn fwy peryglus nag unrhyw un arall. Byddai'r gwelliannau y byddai eu hangen i ddod yn drac trwyddedig Bwrdd Milgwn Prydain Fawr ond yn gwella diogelwch. Ond byddent yn gwneud hynny tra'n cynyddu nifer y rasys sy'n digwydd yng Nghymru. Hyd yn oed gyda gwelliant mewn lefelau diogelwch, mae'n debygol y byddai cynnydd sydyn yn nifer y rasys ac yn nifer y cŵn rasio, yn arwain at gynnydd yn nifer cyffredinol y cŵn a gaiff eu hanafu.

26. Yn ystod ein hymchwiliad mae nifer o elusennau anifeiliaid wedi adolygu eu polisïau a'u harferion eu hunain, ac mae nifer wedi mabwysiadu polisïau newydd mewn perthynas â rasio. Lle'r oeddent yn teimlo'n flaenorol y gallent fod yn fwyaf defnyddiol wrth weithio gyda'r diwydiant i wella lles a diogelwch, maent bellach wedi symud i fabwysiadu dull mwy radical, gan gefnogi'r gwaharddiad y gofynnwyd amdano yn y ddeiseb hon. Mae hwn yn gam pwysig, nad yw wedi'i gymryd yn ysgafn gan unrhyw un o'r sefydliadau dan sylw.

27. Mae'r ymgyrch *Cut the Chase* a lanswyd yn gynharach eleni yn cyflwyno achos cymhellol dros newid, ac yn cymeradwyo dull ymarferol o ddod â'r gamp i ben yn hytrach na thorbwyt caled. Er bod mwyafrif yr Aelodau'n cefnogi'r dull hwn o wahardd yn raddol, mae Joel James AS

yn credu y dylid gwneud mwy i orfodi a chryfhau rheoliadau presennol i wella lles cŵn, ond nid yw'n cytuno â gwaharddiad.

Argymhelliad 1. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwmo i ystyried trwyddedu rasio milgwn fel rhan o'i Chynllun Lles Anifeiliaid. Byddem yn annog blaenoriaethu'r gwaith hwnnw.

Argymhelliad 2. Mae mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor yn credu y dylai camau gweithredu Llywodraeth Cymru gynnwys gwaharddiad graddol ar rasio milgwn yng Nghymru.

Argymhelliad 3. Gall gyrfu rasio milgi fod yn rhan fer o'i fywyd. Ni ddylai camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella lles anifeiliaid gael eu cyfyngu i waharddiad ar rasio – fel strategaeth y diwydiant ei hun, dylai ystyried oes gyfan cŵn, a'r amodau y cânt eu cadw ynddynt cyn ac ar ôl eu gyrfaedd rasio. Byddai hyn yn cynnwys cyflwr cŵn yn teithio drwy Gymru ar eu ffordd i rasys.

Goblygiadau

28. Byddai gwahardd rasio milgwn a/neu gyflwyno rheolau lles anifeiliaid llymach ar gyfer hyfforddwyr cŵn yn cael effaith economaidd ar unigolion sy'n ymwneud â'r diwydiant. Byddai effaith uniongyrchol hefyd ar y Valleys Stadium, a datblygiad tymor canolig ardal Ystrad Mynach. Byddai angen ymgynghori'n eang â'r diwydiant cyn unrhyw newidiadau sylweddol.

29. Byddem hefyd yn argymhell ymgynghori â sefydliadau sy'n derbyn cyn-filgwn rasio, i sicrhau eu bod yn gallu darparu eu gwasanaethau heb gael eu llethu gan y galw.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw newidiadau yn destun ymgynghoriad eang, a bod cyngor ar gael i'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant ar sut i gydymffurfio ag unrhyw reolau neu reoliadau newydd.

30. Wrth gwrs, nid rasio milgwn yw'r unig gamp lle mae anifeiliaid yn rasio er adloniant i bobl, sy'n gamblo ar y canlyniadau. Fodd bynnag, mae ein hymchwiliadau wedi'u harwain gan y ddeiseb, ac nid ydym wedi edrych ar chwaraeon eraill. Yn amlwg, mater i'r Llywodraeth fydd ystyried a oes gan y newid consensws ar rasio milgwn oblygiadau i chwaraeon eraill.

Argymhelliad 5. Wrth ystyried gwaharddiad ar rasio milgwn, dylai Llywodraeth Cymru hefyd edrych ar chwaraeon eraill lle mae anifeiliaid yn cystadlu.

Atodiad A: Tystiolaeth

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
13 Mehefin 2022	Arglwydd (David) Lipsey, Cadeirydd Premier Greyhound Racing Malcolm Tams, The Valley Greyhound Stadium Marc Aderyn, Cadeirydd Bwrdd Milgwn Prydain Fawr Yr Athro Madeleine Campbell, Aelod Annibynnol o Fwrdd Milgwn Prydain Fawr
23 Mai 2022	Vanessa Waddon, Hope Rescue Alain Thomas, Achub Milgwn Cymru Alex Nilan, Almost Home Dog Rescue

Gellir gweld tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol ar dudalen y ddeiseb

P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru